O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2022 Rhif 539 (Cy. 126)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A483 a'r A489 (Ffordd Osgoi'r Drenewydd, Powys) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2022

Gwnaed	*12 Mai 2022*
Yn dod i rym	*16 Mai 2022*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o gefnffyrdd yr A483 a'r A489, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A483 a'r A489 (Ffordd Osgoi'r Drenewydd, Powys) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Mai 2022.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw'r darnau o gefnffordd yr A483 Abertawe i

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Fanceinion a chefnffordd yr A489 y Drenewydd i Aberystwyth o'r enw Ffordd Osgoi'r Drenewydd, Powys a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys, mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn neu i gael mynediad i eiddo priodol;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 09:30 o'r gloch ar 16 Mai 2022 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

6. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 12 Mai 2022

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o Gylchfan Ffordd Dolfor hyd at Gylchfan Kerry Road.

Y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o Gylchfan Kerry Road hyd at Gylchfan Pool Road.

Y darn o gefnffordd yr A489 sy'n ymestyn o Gylchfan Llanidloes hyd at Gylchfan Ffordd Dolfor.